**Astudiaeth Achos**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

**Crynodeb o'r prosiect**
Mae Llais y Goedwig wedi cael nifer o brosiectau'n rhedeg gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, neu achosion lle rydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein nodau oherwydd cysylltiad hirdymor gydag unigolion yn y Cyngor.

Maent wedi cynnwys gwaith o amgylch Gorchmynion Gwarchod Coed gyda Choed yr Hela, Cytundeb rheoli gyda Gwarchodfa Natur Leol Parc Bedford ac etifeddiaeth cynllun Llysgenhadon Coed. Mae Llais y Goedwig wedi cefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hefyd i gyflawni cynlluniau i ddatblygu cyfleoedd Mentrau Cymdeithasol ym Mharc Bedford, Gwarchodfa Natur Leol gyda gwirfoddolwyr cymunedol ac elusennau iechyd meddwl lleol.

Llysgenhadon Coed
Yn 2018 penodwyd Llais y goedwig gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (drwy Rob Jones, Rheolaeth Cefn Gwlad) i greu rhaglen Llysgenhadon Coed er mwyn ymgysylltu gyda grwpiau lleol a sefydliadau i gyfathrebu'r prosiect ac adnabod 'Llysgenhadon Coed' i adnabod coed neu ardaloedd coetir ar hyd a lled Pen-y-bont ar Ogwr yr hoffent hwy eu hamddiffyn a helpu i fonitro a rheoli. Bu i LlyG recriwtio 20 o Lysgenhadon wnaeth dderbyn hyfforddiant, cefnogaeth ac adnoddau i'w helpu i ofalu am y coed roeddent wedi'u hadnabod.
Mae ffilm am y prosiect hwnnw i'w gael yma. Roedd y prosiect yn galluogi i waith parhaus fynd yn ei flaen gyda'r tîm rheoli Cefn Gwlad yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a bu'n fodd i blannu syniadau pellach ar gyfer gweithio ar y cyd.

Gorchmynion Gwarchod Coed
Yn dilyn difrod gan storm (ac o ganlyniad i rai coed Ynn yn cael eu gwanhau gan rai oedd eisoes yn gwywo), gwelodd Coedwig Coed yr Hela bod nifer o goed yn disgyn yn agos at lwybrau troed, gan achosi perygl posib i'r cyhoedd ac i rai oedd yn ymweld â'r safle. Cysylltodd y grŵp gydag Adran Gynllunio Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch torri coed, wnaeth roi gwybod bod gorchmynion gwarchod coed yn eu lle, ac y byddant angen cael asesiad llawn o'r coed gan dyfwr

coed cyn y byddent yn gallu rhoi caniatâd. Byddai hyn wedi cymryd amser, ac yn golygu cost sylweddol.



Cysylltodd Coed yr Hela gyda Sasha Ufnowska o Llais y Goedwig am gyngor. Roedd Sasha'n gallu sicrhau cymorth gan Rob Jones yn CBSP, a oedd eisoes yn un o'r partneriaid presennol yn y cyngor. Cerddodd Rob a Sasha ar hyd y safle gyda Kim o Goed yr Hela, gan ddogfennu'r coed a oedd o bosib yn beryglus, ac ysgrifennu asesiad ar gyfer y tîm cynllunio, yn ogystal â chamu i mewn pryd bynnag roedd anghytuno ynghylch pa gamau i'w cymryd, ac ar unrhyw adeg, ganiatáu i goed gael eu torri'n economaidd a heb broblem.

<u>Cytundeb Rheoli Parc Bedford</u>
Penododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Llais y Goedwig er mwyn rheoli Gwarchodfa Natur Leol Parc Bedford ar gyfer a chyda'r gymuned leol, gan ddatblygu hwb gwirfoddolwyr, cefnogi rhaglen o weithgareddau'n cael eu harwain gan wirfoddolwyr, ac adnabod gweithgaredd mentrau cymdeithasol. Arweiniodd y cytundeb cychwynnol at gytundeb pellach er mwyn adnabod gweithgaredd menter gymdeithasol a allai ddigwydd o fewn y Warchodfa Natur Leol er mwyn ychwanegu gwerth at y cynnig gwirfoddoli o fewn y parc.

Drwy'r comisiwn hwn roeddem yn gallu cadarnhau cysylltiadau gyda'r gymuned, recriwtio mwy o wirfoddolwyr ac ymgysylltu gyda mwy o grwpiau, a grwpiau mwy amrywiol er mwyn ehangu cyfranogiad a defnydd o'r safle. Gan weithio'n agos gyda chydweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a grwpiau lleol er mwyn sicrhau bod Parc Bedford yn cael ei reoli ar gyfer a chyda phobl leol.



Gweithiodd Llais y Goedwig yn agos gyda'r timau Cynllunio a Chefn Gwlad mewn perthynas â grant treth Tirlenwi o £46K a ddiogelwyd gan y Llais yn 2023, ac yn dilyn hynny gyda gwirfoddolwyr i ddatblygu safle meithrinfa goed. Roedd y safle a'r grŵp yn rhan o Ymgyrch Llywodraeth Cymru, *Fy Nghoeden Ein Coedwig,* sydd â'r nod o roi cyfle i bob cartref yng Nghymru y cyfle i gasglu coeden ar gyfer eu gardd neu gael coeden wedi'i phlannu ar eu rhan. Mae grwpiau gwirfoddoli dydd Gwener

rheolaidd wedi parhau i redeg, yn ogystal â sesiynau wythnosol rheolaidd y mudiad lleol Mental Health Matters Wales (MHMW) a grŵp Llwybrau i Gyflogaeth Coleg Pen-y-bont ar Ogwr. Roeddem hefyd yn gallu cefnogi gwaith cadwraeth gwirfoddolwyr ar safleoedd eraill gyda grŵp gwirfoddoli Parc Bedford a'r grŵp MHMW, yn Frog Pond Wood a Sker Farm. Darparwyd hyfforddiant er mwyn sefydlu meithrinfa goed ar y safle, ac o ganlyniad i greu'r blychau pathew ac a osodwyd fel rhan o brosiect ar y cyd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, gwelwyd y pathew yn y parc am y tro cyntaf ers blynyddoedd - ac yn un o'n blychau ni!

Mae'r prosiectau hyn yn parhau i sicrhau cysylltiadau da gyda chymunedau lleol, gwella sgiliau a hyder, a sicrhau bod llwybrau cerdded a chynefinoedd yn cael eu cynnal a chadw'n rheolaidd a'u gwella.

**Beth weithiodd yn dda, beth wnaeth ddim gweithio mor dda:**

Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn darparu enghreifftiau o draweffaith Llais y Goedwig fel trydydd parti, y gallu i greu partneriaethau gyda sefydliadau eraill o'r un feddylfryd, gwneud cysylltiadau rhwng prosiectau penodol, a rhwng timau o fewn y cyngor, er mwyn cynyddu eu traweffaith a'r profiad cyffredinol i'r gwirfoddolwr.

Oherwydd y berthynas gref roeddem eisoes wedi'i datblygu gyda thîm Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, roedd Sasha'n gallu helpu grŵp Coed yr Hela.

Gwelsom gynnydd o'r cynllun llysgennad coed ym Mhen-y-bont ar Ogwr, i lansio'r ymgyrch, *Fy nghoeden Ein Coedwig* ym Mharc Bedford, i hyfforddi gwirfoddolwyr drwy'r prosiect *CommuniTree* sy'n cael ei reoli gan Lais y Goedwig i gefnogi datblygu eu cymuned eu hunain a meithrinfeydd ar raddfa fechan. Y canlyniad terfynol oedd bod y grŵp Parc Bedford wedi prynu a thyfu nifer o goed, yn barod i'w trosglwyddo i'r twnelau polythen a'r gwelyau uchel yn y Parc.




**Beth a ddysgwyd:**

Roedd etifeddiaeth y cynllun Llysgenhadon Coed ynghlwm â'i bobl, a oedd bellach hefyd wedi cael eu hyfforddi ymhellach a gyda diddordeb mewn gweithio gyda choed. Mae'r prosiect wedi plannu syniadau eraill a phrosiectau eraill na fyddai wedi bod yn bosib fel arall. Roedd hefyd wedi'i adeiladu ar gysylltiadau oedd eisoes yn y cyngor, a oedd yn golygu pan oedd Llais y Goedwig, neu'r grwpiau

rydym yn gweithio gyda nhw angen cefnogaeth ychwanegol, roedd gennym ffrindiau cefnogol a/neu feirniadol y gallem gysylltu gyda hwy yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn achos y gorchmynion gwarchod coed. Heb gefnogaeth ychwanegol Llais y Goedwig fel trydydd parti gyda gwybodaeth am adrannau'r cyngor a phwy allai helpu gyda beth, byddai Coed yr Hela, fel grŵp bychan sy'n cael ei arwain gan wirfoddolwyr, wedi gallu bod yn gwario miloedd o bunnoedd ar asesiad tyfwr coed dianghenraid, gyda choed a oedd o bosib yn beryglus yn parhau yn eu lle tra'u bod yn analluog i weithredu.

**Casgliad:**

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a grwpiau lleol er mwyn sicrhau bod Parc Bedford yn cael ei reoli gan bobl leol ar gyfer pobl leol. Ac er mwyn adeiladu ar lwyddiannau prosiectau blaenorol, er enghraifft adeiladu mwy o flychau pathew fel rhan o brosiect ar y cyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru, a pharhau i ddatblygu'r feithrinfa goed fel ffynhonnell goed o darddiad lleol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr a'r ardal ehangach o amgylch de Cymru.